# Bwletin y Farchnad HCC

Gorffennaf 2022


> Yn ddiweddar, mae Defra wedi rhyddhau ffigurau trwybwn lladd-dai'r DU ar gyfer mis Mehefin sy'n dangos bod cynhyrchiant cig coch yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt hyd yn hyn yn 2022. Mae'r ffigurau'n dangos bod patrymau lladd ŵyn wedi lleddfu yn ôl i batrymau cyn Brexit, ac mae rhai arwyddion cynnar hefyd bod cynhyrchwyr yn marchnata stoc ychwanegol, o bosibl oherwydd costau cynhyrchu uchel. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.
>
> Glesni Phillips – Dadansoddwr Data



## GWARTHEG

Yn ystod hanner cyntaf (H1) 2022, cyfanswm trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU oedd **1.3 miliwn pen** yn ôl y ffigurau diweddaraf a ryddhawyd gan Defra. O'i gymharu â lefelau blwyddyn ynghynt, roedd hyn 1% (neu 7,800 pen) yn uwch, ond 2% yn is na'r cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer y cyfnod cyfatebol o 6 mis. Yn ystod hanner cyntaf 2021 gwelwyd y ffigurau trwybwn isaf erioed ar gyfer gwartheg, ac felly mae'r data diweddaraf yn awgrymu bod y cyflenwad wedi gwella ers hynny.

O edrych yn agosach ar y categorïau o wartheg; roedd trwybwn y bustych a teirw ifanc wedi gostwng 2% ar y flwyddyn, ac roedd hefyd yn is na'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae trwybwn heffrod yn dal i fod yn uwch ac roedd cynnydd o 1% ar y flwyddyn – yn cyfrif am dros 40% o'r *gwartheg dethol* a gafodd eu derbyn. Ar y cyfan, cofnododd gwartheg dethol ostyngiad o 1% o flwyddyn i flwyddyn yn eu trwybwn ar 984,000 pen, tra bod pwysau carcasau ar gyfartaledd wedi bod yn drymach yn ystod H1. Cofnododd nifer y *gwartheg llawn-dwf* newid mwy sylweddol, gyda chynnydd o 3% yn uwch na H1 2021, sef 313,500 pen. Mae lladd buchod wedi bod yn gogwyddo uwchlaw lefelau blwyddyn ynghynt bob mis ers mis Mawrth, a chredir ei fod yn ganlyniad i ffermwyr sy'n bwriadu marchnata anifeiliaid hŷn, llai cynhyrchiol ar ôl costau cynyddol mewnbwn fferm a phrisiau uchel buchod difa. Er ei fod yn uwch na'r flwyddyn, mae nifer y gwartheg llawn-dwf yn dal i fod 2% yn is na'r lefelau a welwyd yn ystod 2020 a 2019. Wrth gymryd trwybwn a pwysau carcasau i ystyriaeth; roedd cyfanswm y cynhyrchiant cig eidion a chig llo yn y DU ar gyfer H1 2022 yn 444,700 tunnell – sy'n debyg i lefelau blwyddyn gynharach, ond y lefel cynhyrchu isaf a gofnodwyd ers H1 2018.




## DEFAID

Hyd yn hyn, mae nifer yr *ŵyn dethol* a laddwyd yn y DU ym mhob mis yn 2022 wedi tueddu i fod yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt - ar wahân i fis Mehefin, lle roedd y trwybwn 2% yn is. O ganlyniad, roedd cyfanswm trwybwn ŵyn yn lladd-dai'r DU yn ystod H1 2022 wedi cynyddu 8% (neu 440,700 pen) ar y flwyddyn, sef 5.6 miliwn pen – gan ddychwelyd i lefelau lladd mwy arferol a welwyd yn ystod y blynyddoedd cyn Brexit. Mae pwysau carcasau ŵyn, ar gyfartaledd, wedi bod yn drymach bob mis, gyda'r pwysau cyfartalog cyffredinol yn 20.6kg ar gyfer H1 2022 (0.4kg yn drymach na 2021).

Roedd trwybwn y mamogiaid difa a'r hyrddod yn ystod H1 hefyd yn uwch na'r lefelau blwyddyn gynt – cynnydd o 11% ar 578,400 pen, gyda phwysau cyfartalog carcasau hefyd yn drymach, sef 28.3kg. O edrych ar gyfanswm trwybwn defaid ac ŵyn hyd yma yn 2022 mae'r niferoedd i fyny o 9% (neu 498,200 pen) ar y flwyddyn, ar **6.2 miliwn pen**. Fodd bynnag, o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'r lefelau trwybwn cyfredol yn isel ac mae rhai 2% yn is na'r cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer y cyfnod cyfatebol. Felly, mae cyfanswm cynhyrchiant cig defaid yn ystod H1 o 2022 wedi cynyddu 11% o'i gymharu â'r lefelau blwyddyn ynghynt, sef 132,800 tunnell - y cyfaint uchaf a gynhyrchwyd yn ystod cyfnod H1 ers 2019.

## MOCH

Cyfanswm trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU yn ystod H1 2022 oedd 5.8miliwn pen. Mae hyn 4% (neu 198,400 pen) yn uwch na H1 2021, ac mae'n lefel hanesyddol uchel o foch i'w prosesu yn ystod cyfnod H1, gyda'r lefelau 8% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd. Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod lefelau uchel o foch yn cael eu lladd oherwydd y gost arbennig o uchel o ran lefelau cynhyrchu a geir yn y sector. Roedd nifer y moch heb fagu a laddwyd yn y cyfnod yn sefyll ar **5.7 miliwn pen** - cynnydd o 3% (182,500 y pen) ar lefelau blwyddyn ynghynt, tra bod trwybwn hychod a baedd llawn dwf wedi cynyddu 13% o'i gymharu â'r flwyddyn i gyfanswm o 141,000. Mae'r cynnydd mewn trwybwn moch yn ystod H1 wedi arwain at gynnydd o 7% yng nghyfanswm cynhyrchiant cig moch yn ystod y cyfnod i 538,300 tunnell.

***Cig Coch Mewn Siopau:** Mae'r lefelau chwyddiant uchel presennol yn lleihau pŵer gwario defnyddwyr, sy'n ffafrio fforddiadwyedd i liniaru pwysau costau byw. Mae cig oen a chig eidion wedi bod yn profi gostyngiad bach yn nifer y siopwyr, gyda phris cyfartalog yr holl broteinau yn cynyddu. Wrth i siopwyr newid eu harferion prynu er mwyn arbed arian, mae llawer yn newid rhwng darnau - fel o stêc cig eidion i friwgig cig eidion. Gall hyn gael effaith ganlyniadol ar gydbwysedd carcasau, ac yn ei dro ar brisiau cynhyrchwyr.*

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn gorffen 23 Gorffennaf


Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **250.1c/kg.** Roedd hyn:

- + 4.9c ar yr wythnos flaenorol,
- + 22.3c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 52.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 197.9c/kg).

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **438.4c/kg**. Roedd hyn:


- - 0.1c ar yr wythnos flaenorol,
- 37.6c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 435.1c/kg (-0.9c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 431.4c/kg (-2.8c), a buchod difa yn 355.2c/kg (-0.6c).




### Trwybwn - Mehefin 2022

- Cyfanswm trwybwn gwartheg mewn lladd-dai y DU = 207,300 pen – gostyngiad o 1% ar y flwyddyn
- Cyfanswm trwybwn gwartheg dethol = 154,800 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -4%, heffrod -2%, a theirw ifanc -8%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 348.2kg (+1.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 47,100 pen - cynnydd o 6% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn gorffen 23 Gorffennaf


Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **271.8c/kg.** Roedd hyn:

- - 15.9c ar yr wythnos flaenorol,
- + 13.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 66.8c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 205.0c/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£86.60/pen**. Roedd hyn:


- + £4.70 ar yr wythnos flaenorol,
- + £7.50 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain Fawr yn 622.5c/kg (-16.6c ar yr wythnos).




### Trwybwn - Mehefin 2022

- Cyfanswm trwybwn defaid mewn lladd-dai y DU = 985,200 pen – i lawr 1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 895,200 pen – i lawr 2% ar y flwyddyn.
- Pwysau cyfartalog carcasau ŵyn = 19.8kg (tebyg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 90,000 pen – cynnydd o 8% ar y flwyddyn.





## MOCH

### Prisiau – wythnos yn gorffen 16 Gorffennaf

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **196.7c/kg**. Roedd hyn:

- + 1.2p ar yr wythnos flaenorol,
- + 31.8p o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- Bron i 35c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 161.9c/kg).




### Trwybwn - Mehefin 2022

- Cyfanswm trwybwn moch mewn lladd-dai y DU = 962,200 pen – cynnydd o 16% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 941,200 pen – cynnydd o 17% ar y flwyddyn.
- Pwysau cyfartalog carcas moch heb fagu = 88.7kg (+2.5kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 21,000 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.

